# Datganoli: Ffeithlen

Gwasanaeth Sifil

## Beth yw datganoli?

Mae datganoli'n ymwneud â sut mae seneddau a llywodraethau'n gwneud penderfyniadau. Yn y DU, golyga hyn fod cyrff deddfwriaethol a gweithrediadaethau ar wahân yng Nghymru, yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon.


| Corff Deddfwriaethol | Gweithrediadaeth |
|---|---|
| Senedd y DU | Llywodraeth y DU |
| Senedd yr Alban | Llywodraeth yr Alban |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Llywodraeth Cymru |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | Gweithrediadaeth Gogledd Iwerddon |

Mae ganddynt nifer o bwerau i ddeddfu a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Yn aml, gelwir y rhain yn *bwerau datganoledig*. Ceir hefyd Senedd y DU a Llywodraeth y DU. Maent yn cadw rhai pwerau ledled y DU yn eu cyfanrwydd. Yn aml, gelwir y rhain yn *bwerau wedi'u cadw'n ôl*.

## Pam mae gennym hyn?


Golyga datganoli fod y broses gwneud penderfyniadau'n symud yn agosach at y dinesydd a'i fod yn fwy democrataidd. Nid yw datganoli'n beth newydd. Mae datganoli ar wahanol ffurfiau wedi bodoli yn y DU ers degawdau ac mae'n gyffredin mewn rhannau eraill o'r byd.

Mae trefniant presennol datganoli yn y DU yn dyddio'n ôl i'r 1990au. Ym 1997, dewisodd pleidleiswyr greu Senedd yn yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol i Gymru. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd datganoli'n elfen allweddol o Gytundeb Belffast (sef Cytundeb Dydd Gwener y Groglith) a fe'i cefnogwyd mewn refferendwm ym 1998. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi datblygu datganoli yn Lloegr. Mae hyn drwy drosglwyddo pwerau, cyllidebau a chyfrifoldebau i feiri a thwy bargeinion dinesig.




## Sut mae'n gweithio?

Ledled y DU, ceir pedwar corff deddfwriaethol a phedair gweithrediadaeth, ac mae gan bob un ohonynt ystod wahanol o bwerau. Mae'r pedair gweithrediadaeth yn siarad â'i gilydd i sicrhau bod datganoli'n llwyddiannus. Mae hyn yn digwydd mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae gweinidogion yn trafod yn ffurfiol mewn cyfarfodydd megis Cyd-bwyllgor y Gweinidogion.



### Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (JMC)

JMC (Sesiwn lawn) | JMC ( Negodiadau'r UE) | JMC (Ewrop)

Mae gweinidogion hefyd yn cynnal trafodaethau a gohebiaeth unigol â'u cyfatebwyr. Mae gan weision sifil hefyd gyswllt rheolaidd ar draws y gweithrediadaethau. Caiff ein perthnasoedd eu llywio gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganoli y gallwch ddod o hyd iddynt yn GOV.uk.

Gwasanaeth Sifil

Ceir gwahanol bleidiau gwleidyddol mewn pŵer ym mhob un o'r gweithrediadaethau, ac mae gan bob un ohonynt eu Gweinidogion sy'n cyflwyno eu blaenoriaethau â chymorth gweision sifil. Mae'r gweision sifil sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU oll yn rhan o'r One Civil Service. Mae Gweision Sifil sy'n gweithio yng Ngweithrediadaeth Gogledd Iwerddon yn gweithio i Wasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, sy'n sefyliad ar wahân ond sydd â gwerthoedd a strwythurau tebyg i'r One Civil Service.

Er bod gweision sifil ledled y DU yn gweithio i weithrediadaethau gwahanol, dylem ni hefyd weithio ar y cyd. Drwy weithio ar y cyd, gallwn :

- hyrwyddo safonau proffesiynol cyffredin
- datblygu ymagwedd gydlunus at lunio polisi a
- sicrhau llinellau cyfathrebu da.

# Beth sydd angen imi ei wybod?

Mae'n bwysig eich bod yn deall sut mae datganoli'n effeithio ar y polisïau rydych chi'n gweithio arnynt neu ar y gwasanaethau cyhoeddus rydych chi'n eu rheoli. Hyd yn oed os ydych chi'n gweithio mewn maes sydd wedi'i ddatganoli'n gyfan gwbl neu sydd wedi'i gadw'n gyfan gwbl, yn aml mae'n bosib y byddangen ichi weithio gyda gweithrediadaethau eraill i sicrhau y caiff eich polisi neu'ch gwasanaeth ei gyflwyno'n llwyddiannus. Gall hefyd fod yn gymorth ichi ddysgu am yr hyn sydd wedi gweithio ym mannau eraill.

<table>
<tr><th>Ardal Bolisi</th><th>Yr Alban</th><th>Cymru</th><th>Gogledd Iwerddon</th></tr>
<tr><td>Iechyd a gofal cymdeithasol</td><td>D</td><td>D</td><td>D</td></tr>
<tr><td>Addysg ac hyfforddi</td><td>D</td><td>D</td><td>D</td></tr>
<tr><td>Llywodraeth Leol</td><td>D</td><td>D</td><td>D</td></tr>
<tr><td>Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd</td><td>D</td><td>D</td><td>D</td></tr>
<tr><td>Trafnidiaeth</td><td>D</td><td>D</td><td>D</td></tr>
<tr><td>Rhai trethi</td><td>D</td><td>D</td><td>D</td></tr>
<tr><td>Cyfiawnder a Phlismona</td><td>D</td><td>C</td><td>D</td></tr>
<tr><td>Rhai elfennau nawdd cymdeithasol</td><td>D</td><td>C</td><td>D</td></tr>
<tr><td>Chwaraeon a'r celfyddydau</td><td>D</td><td>D</td><td>D</td></tr>
<tr><td>Amddiffyn</td><td rowspan="6" colspan="3">C</td></tr>
<tr><td>Materion tramor</td></tr>
<tr><td>Mewnfudo</td></tr>
<tr><td>Polisi Masnach</td></tr>
<tr><td>Y cyfansoddiad</td></tr>
<tr><td>Darlledu (gall GI ddeddfu gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol)</td></tr>
</table>

Mae'r tabl hwn yn grynodeb eang o'r pwerau sydd wedi'u cadw'n ôl (C) ac sydd wedi'u datganoli (D). Mae'r termau ychydig yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon: 'wedi'u trosglwyddo', 'wedi'u cadw' ac 'wedi'u heithrio' yn hytrach nac 'wedi'u cadw' ac 'wedi'u datganoli'. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am setliad Gogledd Iwerddon yn ogsytal â setliadau'r Alban a Chymru yn **gov.uk/topic/government/devolution.**

Serch hyn, gall y setliadau fod yn gymhleth ac mae rhai meysydd wedi'u cadw'n ôl yn rhannol ac eraill wedi'u datganoli'n rhannol.
Mae'n bwysig siarad â chydweithwyr neu ag arbenigwyr yn nhimoedd y cyfansoddiad (os ydych chi mewn gweinyddiaeth ddatganoledig) neu yn y Swyddfeydd Tiriogaethol (os ydych chi yn Llywodraeth y DU) i ddeall yn union yr hyn sydd wedi'i ddatganoli neu wedi'i gadw'n ôl yn eich maes chi.

# Ble gallaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae gan bob adran Llywodraeth y DU dîm sy'n arbenigo mewn datganoli ac mae gan bob gweinyddiaeth ddatganoledig tîm sy'n goruchwylio ymgysylltiad â gweinyddiaethau eraill.
Ceir manylion cyswllt ar dudalennau eich mewnrwyd neu yn GOV.uk.

Gallwch hefyd gysylltu â ni os oes gennych chi gwestiynau. Ni yw'r tîm *Datganoli a Chi* yn Llywodraeth y DU. Rydym yn hyrwyddo dysgu am ddatganoli ar draws Un Gwasanaeth Sifil ac yn cynnal digwyddiadau dysgu drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys gweithdai a seminarau yn CS Live a chyda CS Local, ac amrywiaeth o hyfforddiant gyda CS Learning.

Am ragor o wybodaeth, gallwch e-bostio devolution@cabinetoffice.gov.uk neu gysylltu ar Twitter yn twitter.com/CSDevoTeam.